**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| DYDDIAD | **16 GORFFENNAF 2015** |
| TEITL | **CYNNYRCH ARCHWILIO MEWNOL** |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | **AMLINELLU GWAITH ARCHWILIO MEWNOL AM Y CYFNOD HYD AT 30 MEHEFIN 2015** |
| AWDUR | **LUNED FÔN JONES - RHEOLWR ARCHWILIO** |
| GWEITHREDIAD | **DERBYN YR ADRODDIAD, SYLWEBU AR Y CYNNWYS A CHEFNOGI'R ARGYMHELLION SYDD EISOES WEDI'U CYFLWYNO I'R GWASANAETHAU PERTHNASOL ER GWEITHREDIAD** |

---

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r adroddiad yma yn crynhoi gwaith yr Adain Archwilio Mewnol am y cyfnod o 1 Ebrill hyd at 30 Mehefin 2015.

## 2. GWAITH A GWBLHAWYD YN Y CYFNOD

2.1 Cwblhawyd y gwaith canlynol yn y cyfnod 1 Ebrill hyd at 30 Mehefin 2015:

| **Disgrifiad** | **Nifer** |
|---|---|
| Adroddiadau am Archwiliadau o'r Cynllun Gweithredol | 7 |

Ceir manylion pellach ar y gwaith yma yng nghorff yr adroddiad hwn ac yn yr atodiadau amgaeedig.

## 2.2 Adroddiadau Archwilio

2.2.1 Mae'r tabl canlynol yn gosod allan yr archwiliadau o'r cynllun a gwblhawyd yn y cyfnod hyd at 30 Mehefin 2015, gan ddangos y categori barn perthnasol a chyfeiriad i'r atodiad perthnasol.

| TEITL | ADRAN | GWASANAETH | BARN | ATODIAD |
|---|---|---|---|---|
| Taliadau Cymorth Cyntaf | Corfforaethol | | C | Atodiad 1 |
| Ysgol Gynradd Dolgellau | Addysg | Ysgolion | B | Atodiad 2 |
| Ysgol Dyffryn Nantlle | Addysg | Ysgolion | B | Atodiad 3 |
| Prif System Gyfrifo gan gynnwys Dyledwyr a Taliadau - Cau i Lawr 2014-15 | Cyllid | Cyfrifeg | A | Atodiad 4 |
| Cysoni Banc – Cau i Lawr 2014-15 | Cyllid | Cyfrifeg | A | Atodiad 5 |
| System Gyflogau – Cau i Lawr 2014-15 | Cyllid | Pensiynau a Chyflogau | A | Atodiad 6 |
| Costau Teithio Gweithwyr Gofal Cymunedol | Oedolion, Iechyd a Llesiant | Gofal Cymunedol | C | Atodiad 7 |

2.2.2 Mae categorïau barn yr adroddiadau yn datgan y canlynol:

Barn "A" Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle, a'u bod wedi eu dilyn.

Barn "B" Mae rheolaethau mewn lle, a gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol gan fod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau.

Barn "C" Ni ellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol gan na ellir dibynnu ar y rheolaethau mewn lle, ond ni ddarganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth.

Barn "CH" Ni ellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol gan nad oes rheolaethau derbyniol yn bodoli, a darganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth hyn.

**2.3 Archwiliadau Dilyniant**

2.3.1 Mae'r rhestr isod yn dangos yr Adroddiadau Barn 'C' neu 'CH' a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio fel atodiadau i'r adroddiadau chwarterol, lle nad yw'r adroddiad dilyniant wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor eto. Mae'r rhestr yn dangos y dyddiad sy'n darged cwblhau pob un o'r archwiliadau dilyniant hyn:

**Targed Cwblhau: Chwarter yn diweddu 30 Medi 2015**

Gwasanaethau Plant – Comisiynu Gofal
Rhaglenni Arolygu Hylendid Bwyd, Iechyd a Diogelwch
Taliadau Uniongyrchol

**Targed Cwblhau: Chwarter yn diweddu 31 Rhagfyr 2015**

System Swyddi – Diogelwch a Chywirdeb
TG – Trefniadau Wrth Gefn a Pharhad Gwasanaeth

**Targed Cwblhau: Chwarter yn diweddu 31 Mawrth 2015**

Iechyd Diogelwch – Gweithio'n Unig
Cynllun Datblygu Amgueddfa ac Oriel Gwynedd

**3. GWAITH AR Y GWEILL**

3.1 Roedd y gwaith canlynol ar y gweill ar 6 Gorffennaf 2015.

**3.2 Adroddiadau Drafft wedi eu rhyddhau**

- Cyfathrebu gydag Ysgolion *(Addysg)*
- Systemau Refeniw – Cau i Lawr 2014-15 *(Cyllid)*
- Terfynu Gweithwyr oddi ar Systemau TG *(Cyllid)*
- Cronfa'r Cadeirydd (Cefnogaeth Gorfforaethol)

**3.3 Archwiliadau yn mynd rhagddynt**

- Defnydd Ymgynghorwyr *(Corfforaethol)*
- Ymwybyddiaeth o Bolisi Canu'r Gloch - Gweithwyr Llaw *(Corfforaethol)*
- Y Fenter Twyll Genedlaethol *(Corfforaethol)*
- Ysgolion – Llywodraethu *(Addysg)*
- Modelu'r Gweithlu *(Addysg)*
- Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru
- System Dyledwyr – Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol *(Cyllid)*
- System Taliadau – Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol *(Cyllid)*
- PSG – Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol *(Cyllid)*
- Cysoni Banc – Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol *(Cyllid)*
- System Gyflogau – Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol *(Cyllid)*
- Cronfa Bensiwn – Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol *(Cyllid)*
- Budd-daliadau – Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol *(Cyllid)*
- Treth Cyngor – Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol *(Cyllid)*
- Trethi Busnes – Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol *(Cyllid)*
- Canolfannau Hamdden – Casglu Incwm *(Economi a Chymuned)*
- Academi Hwylio *(Economi a Chymuned)*
- Llywodraethu trefniadau cydweithio gyda'r trydydd sector *(Oedolion, Iechyd a Llesiant)*
- Dilysrwydd Anfonebau Darparwyr Preifat *(Oedolion, Iechyd a Llesiant)*

- Plas y Don, Pwllheli *(Oedolion, Iechyd a Llesiant)*
- Plas Hedd, Bangor *(Oedolion, Iechyd a Llesiant)*
- Hafod Mawddach, Abermaw *(Oedolion, Iechyd a Llesiant)*
- Cefn Rodyn, Dolgellau *(Oedolion, Iechyd a Llesiant)*
- Arwystli ar Eiddo Preswylwyr Cartrefi *(Oedolion, Iechyd a Llesiant)*
- Cynnal a chadw adeiladau a safleoedd *(Priffyrdd a Bwrdeistrefol)*

## 4. ARGYMHELLIAD

4.1 Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn yr adroddiad hwn ar waith yr Adain Archwilio Mewnol am y cyfnod o 1 Ebrill 2015 i 30 Mehefin 2015, sylwebu ar y cynnwys yn ôl dymuniad yr aelodau, a chefnogi'r argymhellion sydd eisoes wedi'u cyflwyno i reolwyr y gwasanaethau perthnasol er gweithrediad.

Atodiad 1

**TALIADAU CYMORTH CYNTAF**
**Corfforaethol**

Cefndir

Mae'r Cyngor yn talu lwfans o £8 y mis i weithwyr sydd wedi mynychu cwrs cymorth cyntaf, fel cydnabyddiaeth o ddyletswydd ychwanegol sydd arnynt i ddarparu cymorth cyntaf i'w cyd-weithwyr. Fel rheol, mae'r taliad yn adlewyrchu dyletswydd ychwanegol, fodd bynnag, nid yw swyddogion sy'n dal tystysgrif cymorth cyntaf oherwydd natur eu swyddi, e.e. gweithwyr canolfannau hamdden, yn gymwys i'r lwfans fel rheol oherwydd bod y ddyletswydd wedi ei adlewyrchu yn yr arfarniad swydd.
Petai swyddog yn dymuno derbyn y cyfrifoldeb ychwanegol o fod yn gymhorthydd cyntaf dynodedig, yna bydd rhaid iddynt fynychu cwrs tri diwrnod 'cymorth cyntaf yn y gwaith', a'i adnewyddu pob 3 mlynedd drwy fynychu cwrs adnewyddu 2 ddiwrnod.

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod taliadau cymorth cyntaf yn cael eu gweinyddu'n briodol er mwyn sicrhau mai swyddogion cymwysedig yn unig sy'n derbyn y taliadau a bod manylion cyswllt yn gywir a chyfredol.

Cwmpas yr Archwiliad

Roedd yr archwiliad yn gwirio'r trefniadau sydd mewn lle i sicrhau mai dim ond swyddogion sydd gyda thystysgrifau hyfforddiant cymorth cyntaf cyfredol sy'n derbyn y taliadau. Fel rhan o'r archwiliad, gwiriwyd taliadau cymorth cyntaf diweddar ar y cyfriflyfr a sicrhau cyn belled a bod modd, bod tystysgrif cyfredol gan pob gweithiwr oedd yn derbyn taliad.
Yn ogystal, roedd yr archwiliad yn cwmpasu trefniadau'r Cyngor i sicrhau bod cyflenwad digonol o gymorthyddion cyntaf ym mhrif swyddfeydd y Cyngor a bod eu manylion cyswllt wedi eu harddangos yn briodol a bod y wybodaeth sydd arnynt yn gyfredol.

Prif Ddarganfyddiadau

Dengys canlyniadau profion yr archwiliad a'r dystiolaeth gefnogol nad oes gweithdrefnau priodol mewn lle er mwyn sicrhau mai swyddogion cymwysedig yn unig sy'n derbyn y taliadau misol. Gwelwyd fod nifer o enghreifftiau ble mae swyddogion yn derbyn taliadau, ond nad oes tystysgrif cymorth cyntaf cyfredol i gefnogi'r taliadau. Yn ogystal, mae angen sicrhau bod dyletswyddau ar gyfer trefniadau cymorth cyntaf wedi eu hadnabod a bod hyfforddiant priodol ar eu cyfer. Yn dilyn trafodaethau gyda swyddogion yr Adran Cefnogaeth Gorfforaethol, daeth i'r amlwg nad oedd "Cymorth Cyntaf" wedi ei adnabod fel rhan o hyfforddiant ar gyfer rheolwyr safle.

Gwelwyd fod y rhestrau o swyddogion cymorth cyntaf sydd yn cael eu harddangos yn y swyddfeydd yn cynnwys enwau'r swyddogion, rhifau ffôn, adran a lleoliad (gan gynnwys rhif ystafell os yn briodol). Fodd bynnag, gwelwyd bod rhai rhestrau heb eu diweddaru ers peth amser ac felly yn cynnwys manylion anghywir, sy'n golygu na fuasai gan berson sydd angen cymorth cyntaf y gallu i ddod o hyd iddynt.

**Barn yr Archwiliad**

**(C) Barn yr Archwiliad yw na ellir datgan sicrwydd o briodoldeb yng ngweinyddiaeth Taliadau Cymorth Cyntaf gan na ellir dibynnu ar y rheolaethau mewn lle. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Mae angen ail edrych ar y drefn o fonitro taliadau cymorth cyntaf, gan gynnwys rheoli a chofnodi dalwyr tystysgrifau.**
- **Dylid cynorthwyo'r Rheolwyr Safle (Swyddfeydd) i gynnal ymarferiad er mwyn adnabod os oes cyflenwad priodol o swyddogion cymwysedig cymorth cyntaf yn y lleoliadau gwaith yn dilyn symudiadau swyddfeydd diweddar.**
- **Buasai'n ymarfer da peidio nodi Adran gyflogedig y cymhorthyddion cyntaf ar y rhestrau cyswllt er mwyn annog gweithwyr o Adrannau eraill i gysylltu â hwy petai angen.**
- **Dylid cynorthwyo'r Rheolwyr Safle (Swyddfeydd) i ddiweddaru'r rhestrau o gymorthyddion cyntaf cymwysedig yn rheolaidd gan sicrhau bod yr hen restrau yn cael eu tynnu lawr.**
- **Dylid cynnwys trefniadau cymorth cyntaf o fewn cwrs hyfforddiant Rheolwyr Safle.**

Atodiad 2

**YSGOL GYNRADD DOLGELLAU**
**Addysg**

Cefndir

Corff Llywodraethol ysgol sy'n gyfrifol am reoli a rhedeg yr ysgol a rhoddir pwerau dirprwyedig i'r Pennaeth i allu rhedeg yr ysgol o ddydd i ddydd. Mae hawliau'r Pennaeth o ran penderfyniadau ariannol wedi ei bennu gan y Corff Llywodraethol a dylid fod wedi ei gofnodi o fewn polisi yr ysgol. Cyfrifoldeb y Pennaeth yw adrodd i'r Corff Llywodraethol yn gyson ar sefyllfa ariannol yr ysgol ac ar unrhyw fater sy'n effeithio'r sefyllfa hwnnw.

Bwriad yr Archwiliad

Sicrhau fod trefniadau rheolaethau gyllidebol priodol yn bodoli yn ysgol Gynradd Dolgellau.

Cwmpas yr Archwiliad

Ar gais y Pennaeth Addysg cynhaliwyd archwiliad mewnol yn ysgol Gynradd Dolgellau. Penderfynwyd cynnal archwiliad mewnol ar y testun 'Rheolaeth Gyllidebol', oherwydd bod y maes hwnnw yn faes lle mae risgiau uchel.

Prif Ddarganfyddiadau

Y prif ddarganfyddiadau yn deillio o'r archwiliad yw bod rheolaeth gyllidebol gyffredinol dda yn yr ysgol. Er hynny, ni welwyd cofnod cyfredol ysgrifenedig o ddyletswyddau a hawliau'r Corff Llywodraethol a'r Pennaeth. Nid oedd yr ysgol yn gwneud defnydd o lyfrau swyddogol y Cyngor megis llyfrau 'Derbyniadau TR32' a 'Gosod Adeilad TR184' a nid oedd yr Ysgrifenyddes yn ymwybodol o'u bodolaeth. Gall hyn olygu bod gweithwyr eraill yn ysgolion Gwynedd ddim yn ymwybodol o'u bodolaeth ychwaith, ac efallai bod angen i'r Adran Addysg ystyried anfon neges allan i'r ysgolion yn eu hysbysu o fodolaeth y llyfrau a'r angen i wneud defnydd ohonynt.

**Barn yr Archwiliad**

**(B)** **Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yn nhrefniadau Rheolaeth Gyllidebol yn Ysgol Gynradd Dolgellau gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid sicrhau fod cofnod cyfredol ysgrifenedig o ddyletswyddau a hawliau'r Corff Llywodraethol a'r Pennaeth parthed penderfyniadau ariannol gan gynnwys trothwyon priodol yn bodoli yn yr ysgol.**
- **Os archebir nwyddau/gwasanaethau ar lafar yn hytrach na thrwy'r system e-gaffael dylid cysylltu gyda'r Cymhorthydd SIMS Ysgolion a derbyn rhif archeb ar gyfer y gwariant a dylid nodi'r rhif wrth y cyflenwr pob amser.**
- **Dylid sicrhau bod y sawl sydd wedi gwirio bod y nwyddau/gwasanaethau wedi eu derbyn yn arwyddo'r blwch 'Derbyniwyd' ar y slip talu T.R. 252.**
- **Dylid sicrhau bod y llyfr 'Derbyniadau TR32' yn cael ei ddefnyddio o hyn allan ar gyfer rhoi derbynneb am incwm megis rhoddion, gwersi cerdd a gosodiadau a dderbynnir.**
- **Dylid gwneud defnydd o'r llyfr 'Gosod Adeilad TR184' wrth osod allan yr ysgol, er mwyn creu cytundeb gyda'r llogwr a dylid sicrhau fod y llogwr yn arwyddo'r cytundeb ac yn ei anfon yn ôl i'r ysgol.**

Atodiad 3

**YSGOL DYFFRYN NANTLLE**
**Addysg**

Cefndir

Corff Llywodraethol ysgol sy’n gyfrifol am reoli a rhedeg yr ysgol a rhoddir pwerau dirprwyedig i’r Pennaeth i allu rhedeg yr ysgol o ddydd i ddydd. Mae hawliau’r Pennaeth o ran penderfyniadau ariannol wedi ei bennu gan y Corff Llywodraethol ac wedi ei gofnodi o fewn polisi yr ysgol. Cyfrifoldeb y Pennaeth yw adrodd i’r Corff Llywodraethol yn gyson ar sefyllfa ariannol yr ysgol ac ar unrhyw fater sy’n effeithio’r sefyllfa hwnnw.

Bwriad yr Archwiliad

Sicrhau fod trefniadau rheolaethau gyllidebol priodol yn bodoli yn Ysgol Dyffryn Nantlle.

Cwmpas yr Archwiliad

Ar 13/04/15 penodwyd Pennaeth newydd yn Ysgol Dyffryn Nantlle ac yn dilyn cyfarfod rhwng yr archwiliwr a’r Pennaeth newydd penderfynwyd y byddai’n fuddiol pe bai’r Gwasanaethau Archwilio a Rheoli Risg yn cynnal archwiliad, er mwyn rhoi sicrwydd i’r Pennaeth newydd ar y rheolaethau presennol oedd mewn lle yn yr ysgol. Penderfynwyd cynnal archwiliad ar y testun ‘Rheolaeth Gyllidebol’.

Prif Ddarganfyddiadau

Y prif ddarganfyddiadau yn deillio o’r archwiliad yw bod rheolaeth gyllidebol gyffredinol dda yn yr ysgol. Er hynny, gwelwyd fod y polisi ar benderfyniadau cyllidol angen cael ei ail drafod gan y Corff Llywodraethol a’i ddiweddaru gyda manylion y Pennaeth newydd. Nid oedd cyfarfodydd Is-bwyllgor Cyllid wedi bod yn cael eu cynnal pob tymor a bod achosion lle nad oedd archebion swyddogol yn cael eu creu ar gyfer pob gwaraint yn unol â’r disgwyl.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yn nhrefniadau Rheolaeth Gyllidebol yn Ysgol Dyffryn Nantlle gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid sicrhau fod unrhyw newidiadau a wneir i'r gyllideb drafft yn cael eu diwygio yn y system FMS.**
- **Dylid sicrhau bod y polisi ar benderfyniadau cyllidol yn cael ei diweddaru gyda manylion y Pennaeth newydd a bod Cadeirydd y Llywodraethwyr a’r Pennaeth yn ei lofnodi.**
- **Dylid sicrhau bod adroddiadau ar fonitro’r gyllideb yn cael eu cyflwyno i’r pwyllgor cyllid unwaith y tymor o leiaf.**
- **Dylid sicrhau fod archebion yn cael eu codi pryd archebir nwyddau/gwasanaethau ac nid ar ôl derbyn yr anfoneb. Os bydd angen archebu ar lafar fel mater o frys, yna dylid cadarnhau hynny yn syth drwy gwblhau archeb ysgrifenedig. Os yw’r ysgol yn ymwybodol o wariant blynyddol rheolaidd dylid amcangyfrifo’r gost am y flwyddyn a chreu archeb ar gychwyn y flwyddyn ar gyfer y gwariant.**
- **Dylid sicrhau fod 3 dyfynbris yn cael eu derbyn neu o leiaf 3 cyflenwr/darparwr yn cael eu gwahodd i gyflwyno dyfynbris am unrhyw waith dros £1,000 ac os na dderbynnir 3 dyfynbris yn ôl, dylid cadw tystiolaeth yn yr ysgol bod 3 cyflenwr wedi cael eu gwahodd.**

Atodiad 4

**Y BRIF SYSTEM GYFRIFO GAN GYNNWYS**
**DYLEDWYR A THALIADAU - CAU I LAWR 2014 – 15**
**Cyllid**

Bwriad yr Archwiliad

Mae Cod Ymarfer Archwilydd Cyffredinol Cymru Ebrill 2010 yn datgan y bydd archwilwyr allanol yr awdurdod (Swyddfa Archwilio Cymru) wrth gynnal eu harchwiliad o gyfrifon y Cyngor yn dibynnu lle bosibl ar waith Archwilio Mewnol (ac eraill). O ganlyniad i hyn mae'r protocol ar y cyd rhwng y gwasanaeth Archwilio Allanol a'r gwasanaeth Archwilio Mewnol a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Archwilio ar 17 Tachwedd 2011, yn datgan

***"Fel rhan o'u rôl allweddol o ran cyflwyno adroddiadau ar ddigonolrwydd rheolaeth fewnol a darparu sail ar gyfer Datganiad Llywodraethu Blynyddol yr Awdurdod, y mae'n rhaid ei gyhoeddi gyda'r datganiad cyfrifon blynyddol y Cyngor, disgwylir i'r gwasanaeth Archwilio Mewnol brofi rheolaethau allweddol systemau ariannol pwysig y Cyngor yn flynyddol".***

Caiff y Brif System Gyfrifo ei hystyried yn "system ariannol bwysig" yn unol â diffiniad Swyddfa Archwilio Cymru, ac felly mae bwriad cynnal adolygiad o reolaethau allweddol y system yma gan gynnwys modiwl dyledwyr a thaliadau.

Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod trefniadau priodol mewn lle ar gyfer trefniadau cau i lawr y flwyddyn ariannol, drwy gadarnhau bod cysoniadau priodol yn cael eu cynnal.

Cwmpas yr Archwiliad

Gwiriwyd bod y cysoniadau sy'n rhan o'r ymarferiad o gau'r flwyddyn flaenorol sef 2014-15 yn cael eu cynnal yn amserol a'u bod yn gyflawn a chywir. Sicrhawyd bod reserfau wedi eu creu fel yr angen. Gwiriwyd bod cofnodion mewn perthnasedd â blynyddoedd ariannol yn cael eu dyrannu i'r flwyddyn ariannol gywir. Gwiriwyd bod amserlen yn cael ei dilyn mewn perthnasedd a phrosesau cau i lawr. Dethol sampl o anfonebau, arian a fanciwyd, biliau mewnol a.y.b. i sicrhau eu cywirdeb a'u dyraniad.

Prif Ddarganfyddiadau

Gwelwyd bod rheolaethau mewnol cryf yn bodoli o fewn trefniadau cau lawr y Brif System Gyfrifo gan gynnwys modiwlau dyledwyr a thaliadau. Gwelwyd bod gwiriadau priodol yn cael eu cynnal i sicrhau cyflawnrwydd a chywirdeb a gwelwyd bod y gweithdrefnau yn unol â'r amserlen a osodwyd ar gyfer y swyddogion.

**Barn yr Archwiliad**

**(A)** **Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol yn nhrefniadau Y Brif System Gyfrifo gan gynnwys Dyledwyr a Thaliadau – Cau i Lawr 2014 – 15 - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle, a'u bod wedi eu dilyn.**

Atodiad 5

**CYSONI BANC - CAU I LAWR 2014-15**
**Cyllid**

Bwriad yr Archwiliad

Mae Côd Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru, Ebrill 2010, yn datgan y bydd archwilwyr allanol yr Awdurdod (Swyddfa Archwilio Cymru), wrth gynnal eu harchwiliad o gyfrifon y Cyngor, yn dibynnu lle'n bosib ar waith Archwilio Mewnol (ac eraill). O ganlyniad i hyn, mae'r Protocol ar y Cyd rhwng y gwasanaeth Archwilio Allanol a'r gwasanaeth Archwilio Mewnol, a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Archwilio ar 17 Tachwedd 2011, yn datgan:

***"Fel rhan o'i rôl allweddol o ran cyflwyno adroddiadau ar ddigonolrwydd rheolaeth fewnol a darparu sail ar gyfer Datganiad Llywodraethu Blynyddol yr awdurdod, y mae'n rhaid ei gyhoeddi gyda datganiad cyfrifon blynyddol y Cyngor, disgwylir i'r gwasanaeth Archwilio Mewnol brofi rheolaethau allweddol systemau ariannol pwysig y Cyngor yn flynyddol".***

Caiff trefniant cysoni banc ei ystyried yn "system ariannol bwysig" yn unol â diffiniad Swyddfa Archwilio Cymru, ac felly cynhaliwyd adolygiad o drefniadau cau i lawr y system yma. Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod gweithdrefnau mewn lle ac wedi ei ddogfennu ar gyfer cynnal cysoniad banc diwedd blwyddyn.

Cwmpas yr Archwiliad

Gwirio prosesau a threfniadau cau i lawr diwedd blwyddyn.

Prif Ddarganfyddiadau

Gwelwyd bod y cysoniadau perthnasol diwedd blwyddyn wedi eu cwblhau yn unol â'r drefn ddisgwyliedig a bod y dogfennau wedi eu harwyddo'n gywir gan swyddogion perthnasol.

**Barn yr Archwiliad**

**(A)** **Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol yn nhrefniadau Cysoni Banc - Cau i lawr 2014-15 gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle, a'u bod wedi eu dilyn.**

Atodiad 6

**SYSTEM GYFLOGAU - CAU I LAWR 2014-15**
**Cyllid**

Bwriad yr Archwiliad
Mae Côd Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru, Ebrill 2010, yn datgan y bydd archwilwyr allanol yr Awdurdod (Swyddfa Archwilio Cymru), wrth gynnal eu harchwiliad o gyfrifon y Cyngor, yn dibynnu lle'n bosib ar waith Archwilio Mewnol (ac eraill). O ganlyniad i hyn, mae'r Protocol ar y Cyd rhwng y gwasanaeth Archwilio Allanol a'r gwasanaeth Archwilio Mewnol, a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Archwilio ar 17 Tachwedd 2011, yn datgan:

***"Fel rhan o'i rôl allweddol o ran cyflwyno adroddiadau ar ddigonolrwydd rheolaeth fewnol a darparu sail ar gyfer Datganiad Llywodraethu Blynyddol yr awdurdod, y mae'n rhaid ei gyhoeddi gyda datganiad cyfrifon blynyddol y Cyngor, disgwylir i'r gwasanaeth Archwilio Mewnol brofi rheolaethau allweddol systemau ariannol pwysig y Cyngor yn flynyddol."***

Caiff y system gyflogau ei ystyried yn "system ariannol pwysig" yn unol â diffiniad Swyddfa Archwilio Cymru, ac felly cynhaliwyd adolygiad o reolaethau allweddol y system yma.

Cwmpas yr Archwiliad
Bwriad yr archwiliad oedd gwirio trefniadau diwedd blwyddyn i sicrhau bod y wybodaeth berthnasol yn cael ei anfon i Cyllid a Thollau EM yn ogystal â sicrhau bod cysoniadau yn cael eu cynnal i sicrhau bod y wybodaeth yn y cyfriflyfr yn gywir.

Prif Ddarganfyddiadau
Gwelwyd bod y gwaith perthnasol o anfon gwybodaeth i Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi wedi ei gwblhau yn ogystal â'r gwaith cysoni i'r cyfriflyfr yn unol â'r disgwyl.

**Barn yr Archwiliad**

**(A)** **Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol yn nhrefniadau System Gyflogau - Cau i lawr 2014-15 gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle, a'u bod wedi eu dilyn.**

Atodiad 7

**COSTAU TEITHIO GWEITHWYR GOFAL CYMUNEDOL**
**Oedolion, Iechyd a Llesiant**

Cefndir

Mae gofyn i Weithwyr Gofal Cymunedol y Cyngor deithio i amrywiol leoliadau yn rhinwedd eu swydd er mwyn darparu gofal cymunedol i drigolion eu cymuned. Mae’r gweithwyr wedyn yn gwneud ceisiadau wythnosol i’r Cyngor am ad-daliad costau teithio, a gaiff eu gweinyddu o fewn eu hardal gwaith.

Mae’r gyfradd costau teithio presennol yn unol â’r graddfeydd a ddyfernir gan Cyllid a Thollau EM, sef;

- 45c y filltir am y 10,000 milltir gyntaf mewn unrhyw flwyddyn ariannol.
- 25c y filltir am y milltiroedd hynny dros 10,000 mewn unrhyw flwyddyn ariannol.

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod rheolaethau mewnol priodol yn bodoli yn y trefniadau ar gyfer gweinyddu, prosesu ac ardystio taliadau costau teithio Gweithwyr Gofal Cymunedol (Gofal Cartref), er mwyn sicrhau bod y milltiroedd a gaiff eu hawlio yn briodol ac yn cyfateb i’r teithio sy’n ddisgwyliedig o’u rota gwaith am y cyfnod.

Cwmpas yr Archwiliad

Roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio sampl diweddar o hawliadau costau teithio Gweithwyr Gofal Cymunedol ar draws ardaloedd Arfon, Dwyfor a Meirionnydd, gan gymharu’r hyn mae’r gweithwyr wedi bod yn hawlio yn erbyn eu rotas gwaith am y cyfnod dan sylw. Roedd yr archwiliad hefyd yn gwirio pa reolaethau sydd mewn lle i sicrhau cywirdeb yr hawliadau.

Prif Ddarganfyddiadau

Dengys ganlyniadau profion yr archwiliad a’r dystiolaeth gefnogol nad oes gweithdrefnau priodol a chyson mewn lle ar draws y tair ardal er mwyn sicrhau cywirdeb yr hawliadau costau teithio. Yn anffodus, gall hyn gyfrannu at y ffaith bod cyllideb teithio ‘Gofal Cymunedol’ wedi gorwario oddeutu £128k yn ystod 2014-15. Gwelwyd fod y gwiriadau a wnaethpwyd ar y ffurflenni costau teithio yn canolbwyntio ar ddarlleniadau cloc milltiroedd y cerbydau yn hytrach na’r cyfanswm gaiff ei hawlio a sut mae hyn yn cymharu â rota gwaith y gofalwyr. Fodd bynnag, gwelwyd yn ddiweddar bod un ardal wedi cymryd camau i gryfhau eu trefniadau yn dilyn darganfod bod y milltiroedd gaiff eu hawlio yn amheus o uchel.

**Barn yr Archwiliad**

**(C)** **Barn yr archwiliad yw na ellir datgan sicrwydd o briodoldeb yng ngweinyddiaeth costau teithio Gweithwyr Gofal Cymunedol gan na ellir dibynnu ar y rheolaethau sydd mewn lle ym mhob ardal. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid cynnwys ar y ffurflenni hawlio costau teithio fanylion llawn pob siwrnai a hawlir, oni bai mewn achosion ble mae cyfres o siwrneiau byr iawn, ble argymhellir i drin y rhain fel un siwrnai.**

- **Dylid archwilio sampl o hawliadau costau teithio yn amserol er mwyn sicrhau bod y milltiroedd a hawliwyd yn rhesymol ac yn cyd-fynd a'u rotas a lleihau'r pwyslais ar archwilio darlleniadau'r cloc milltiroedd.**
- **Dylid ymchwilio i'r achosion ble mae Gweithwyr Gofal Cymunedol wedi hawlio mwy na'r hyn sy'n ddisgwyliedig wrth ystyried eu rota am y cyfnod cyfatebol, gan dderbyn eglurhad am y gwahaniaeth a gaiff eu hawlio.**
- **Mae angen i'r Adran benderfynu os dylid buddsoddi adnoddau i gynnal ymchwiliad trylwyr i fynd drwy bob hawliad costau teithio 2014-15 er mwyn adennill unrhyw ordaliadau.**
- **Mae angen i ardaloedd Dwyfor ac Arfon anfon llythyr at bob Gweithiwr Gofal Cymunedol yn mynegi bydd rheolaethau llymach mewn lle er mwyn monitro hawliadau costau teithio drwy gymharu hawliadau gyda rotas, a phwysleisio y dylai'r gweithwyr ond hawlio am deithio sy'n rhan o'u swydd yn unig.**